

Tymor Pwmpenni 2020 - Astudiaeth achos 'casglu eich hunain'

TAFLEN GWYBODAETH

NODER - Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar gnydau pwmpenni wedi'u nodi ac yn gywir adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon.

Roedd dechrau tymor 2020 yn anodd. Cafwyd rhew hwyr tan yr wythnos gyntaf ym mis Mai ac roedd priddoedd sych yn oedi'r plannu, ond cafwyd glaw trwm wedyn gan oedi'r plannu ymhellach. Ar raddfa fach, mae plannu o dan blastig yn gallu gwella mynediad a rheoli chwyn ar ddechrau'r tymor, ond gall fod yn anymarferol ar raddfa fawr heb beiriannau addas. Yn ogystal â chadw lleithder yn y pridd heb ganiatáu iddo fynd yn ddwrlawn, bydd hyn yn cynhesu'r pridd ac yn gwella cyfraddau twf yn gynnar yn y tymor. Arweiniodd y tywydd da dros yr haf ym mis Gorffennaf ac Awst at dwf cryf, ond mae llawer o'r cnydau wedi aros yn llystyfol ac wedi cynhyrchu blodau benywaidd yn hwyrach nag arfer. Arweiniodd hyn at aeddfedu'n hwyrach nag arfer, er bod y mwyafrif o ffrwythau wedi cyrraedd eu lliw llawn mewn pryd ar gyfer gwerthiannau yn yr hydref.



MAWRTH/EBRILL/MAI

Mae rheoli chwyn yn effeithiol yn hanfodol er mwyn tyfu cnydau pwmpenni sy'n cyflawni eu potensial. Dylid rheoli chwyn cyn ac ar ôl plannu, er bydd amrywiaeth lai o sylweddau gweithredol yn golygu eich bod yn annhebygol o gyflawni cnwd perffaith lân. Rhoddir rhywfaint o ganllawiau cyffredinol ar reoli chwyn isod, ond argymhellir yn gryf y dylid gofyn am gyngor gan agronomegydd cymwys priodol drwy gydol y tymor i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Rheoli chwyn cyn plannu

Bydd baich chwyn isel wrth blannu yn caniatáu i gnwd cryf ymsefydlu, er bod pwmpenni fel arfer yn cael eu drilio neu eu plannu ar ddechrau i ganol mis Mai, a gall hyn gyfateb â'r tyfiant chwyn cyntaf sy'n egino trwy fis Mawrth. Dylai'r tir fod yn rhydd o chwyn parhaol, yn enwedig marchwellt ac ysgall. Er mwyn cael y canlyniadau gorau, mae rhywfaint o gynllunio ymlaen llaw yn ddefnyddiol. Yn ddelfrydol, dewiswch gnwd blaenorol lle mae chwyn wedi cael eu rheoli'n dda. Mae hyn fel arfer yn golygu cnydau grawn neu india-corn fel bod llai o faich chwyn, yn enwedig chwyn llydanddail. Mae dechrau gyda hen wely hadau yn ddull pwysig defnyddiol ar gyfer y cnwd hwn.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



GARDDWRIAETH
HORTICULTURE



Bydd y pridd yn cael ei drin, ac mae gwrtaith/calch yn cael ei wasgaru (os oes angen) 4-6 wythnos cyn plannu'r cnwd. Yna caiff y tir ei adael er mwyn i'r tyfiant chwyn cyntaf ymddangos, a chaiff y rhain eu llosgi, fel arfer gan ddefnyddio Glyffosad bythefnos cyn plannu.

Yna mae'r gwaith plannu neu ddrilio'n cael ei wneud gan amharu cyn lleied â phosibl ar y pridd, a bydd y chwynladdwyr gweddilliol yn cael eu gwasgaru'n uniongyrchol wedi hynny. Mae hyn fel arfer yn cael ei wneud

ym mis Mai, felly os yw'r tywydd wedi bod ffafriol, dylai'r pridd fod yn ddiagon sych a chynnes i gefnogi'r cnwd ifanc. Fodd bynnag, os yw strwythur y pridd yn wael, neu os mae wedi cael ei weithio'n rhy fân, mae'n bosibl y bydd yn cwmpo.

Ar ôl drilio neu blannu, bydd cymysgedd tanc gweddilliol o chwynladdwyr yn cael ei wasgaru ar y cnwd. Gellir defnyddio propyzamide (e.e. Kerb Flo) o dan EAMU (2416/08) fel chwynladdwr cyffredinol, wedi'i wasgaru ar gyfradd hyd at 1.875 L/ha ar 400g/L. Mae hyn yn ddefnyddiol ar ystod o chwyn gan gynnwys glaswellt, ond yn aneffeithiol ar chwyn cyfansawdd gan gynnwys amranwen, creulys ac amhrydlwyd. Mae'n bosibl y bydd twf planhigion bychain, anaeddfed yn arafu ychydig, ond dim ond am gyfnod byr. Gellir defnyddio clomazone (e.e. Gamit 36CS) o dan EAMU (2831/15) fel chwynladdwr sbectwm eang i reoli llau'r offeiriad, gwlydd, geuberllys, rhyddlwyni, marddanadl, a phwrs y bugail. Gellir ei ddefnyddio ar gyfradd o 0.25 L/ha, ond yn aml defnyddir hanner y gyfradd hon. Yn yr un modd, gall hyn arafu twf y cnwd ryw ychydig. Gellir hefyd defnyddio Dimethenamid-p + Pendimethalin (e.e. Wing-P) o dan EAMU (0619/18) i reoli gweunwellt blynyddol a chwyn llydandail gydag uchafswm dos o 4 L/ha. Gall Wing-P effeithio'n sylweddol ar dwf cynydau, felly mae'n rhaid ei ddefnyddio yn ofalus – dylid ei ddefnyddio fel chwynladdwr rhwng rhesi mewn cnwd wedi'i blannu'n unig, ac ni argymhellir ei ddefnyddio ar gyfer cnwd wedi'i ddrilio. Mae'n well ei ddefnyddio ar gyfradd is i leihau ei effaith ar y cnwd.



Gall Amranwen (Ch) a Throed-yr-ŵydd gwyn (Dd) ymsefydlu'n hwyrach yn y tymor a gallant dagu cnwd yn gyflym. Gall hyn fod yn arbennig o broblematig ar gyfer cynydau casglu eich pwmpenni eich hunain lle gall chwyn atal mynediad cwsmeriaid at y pwmpenni yn y cae.

Nid yw'r sylweddau gweithredol a roddir uchod yn gweithredu llawer ar gyswllt, ac felly mae'n rhaid eu defnyddio cyn i'r chwyn ymddangos. Yn dilyn ymddangosiad/plannu, cadwch lygad ar gynnydd y planhigion yn ddyddiol; os bydd chwyn yn ymddangos, gweithredwch ar unwaith gyda chwynladdwyr cyswllt uniongyrchol. Gellir trin a hofio yn yr achos hwn, ond bydd hyn yn tarfu ar chwynladdwyr a ddefnyddiwyd yn flaenorol, a gallai hynny ganiatáu i fwy o chwyn egino. Mewn tywydd ffafriol, mae'r cnwd yn ymddangos ac mae planhigion yn tyfu'n gyflym, ac yn fuan iawn,



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



byddant yn gorchuddio arwyneb y pridd, gan atal chwyn rhag egino. Osgowch wasgaru mewn tywydd oer neu wyntog er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar y cnwd, er y gallai hynny fod yn anodd yn ystod cyfnodau oer/gwlyb ym mis Mai/Mehefin. Mae tywydd gwael a defnyddio chwynladdwyr yn lleihau twf cnydau mewn nifer o achosion, ac mae perfformiad yn gallu gwanhau, felly mae'n bwysig trin mewn amodau delfrydol yn unig os yw'n bosibl. Gall chwyn sy'n egino'n hwyr (e.e. troed-yr-ŵydd gwyn) ymddangos yn ddiweddarach (hyd yn oed os yw'r pridd yn sych), ac mae'n gallu tyfu'n gynt na'r cnwd, felly mae'n bwysig gweithredu pan fydd y chwyn yn fach. Mae rhywogaethau *Polygonum* gan gynnwys y ganwraidd goesgoch, y canclwm a'r glymog ddu yn aml yn broblem, fel amranwen.

Gallai tyfwyr organig ddefnyddio pilen ysgafn sy'n atal goleuni megis polythen du ar wely hadau, neu ddeunydd gorchudd wedi'i wehyddu sy'n para am gyfnod hir fel Mypex, y gellid ei ddefnyddio am 10 mlynedd os caiff ei ofalu amdano. Gellid cyflawni effaith debyg i hen wely hadau cyn plannu gyda math tebyg o orchudd i'r uchod, wedi'i dynnu ar ôl mis neu fwy a'i ddrilio/plannu.



MEHEFIN

Ymsefydlu Cnydau a Dyfrhau

Dylai'r gwaith o blannu pwmpenni fod ar ben erbyn mis Mehefin - naill ai drwy ddrilio neu drawsblannu - a dylai'r cnwd fod wedi ymsefydlu'n dda. Roedd y gwaith plannu'n anodd yn 2020 gyda'r cyfnodau hir o dywydd sych, ac mae angen osgoi plannu pan fo'r tywydd yn boeth ac yn sych. Penderfynodd rhai tyfwyr ddrilio'n uniongyrchol, a gwelwyd eginiaid afreolaidd lle'r oedd y caeau wedi bod yn sych, ac mae hyn yn gallu gadael bylchau'n hwyrach yn y

tymor. Os nad yw'r hadau a gafodd eu drilio yn y lle cyntaf wedi ymsefydlu'n dda, mae'n bosibl y bydd amser i ddrilio eto. Dyfrhewch ar ôl plannu i hyrwyddo datblygiad gwreiddiau da. Os ydych yn drilio, gallwch ddyfrhau'n uniongyrchol gyda'r dril neu chwistrellu dros y cnwd gan ddefnyddio tanc a thaenwr slyri. Gan ddibynnu ar eich pridd, efallai y gallwch ddyfrhau tua 10-15cm ger yr wyneb, felly dim ond ychydig iawn sydd angen ei ychwanegu i gau'r bwlch rhwng lleithder y pridd a'r wyneb. Bydd lleithder arwynebol hefyd yn helpu i sicrhau bod eich chwynladdwyr gweddilliol yn gallu gweithio'n llawn i helpu i gyfyngu ar chwyn sy'n dod i'r amlwg ar ôl plannu.

Llwydni Powdrog

Mae llwydni powdrog yn debygol o fod yn risg o fis Gorffennaf ymlaen. Dylech gynllunio i gadw'r llwydni hwn oddi ar eich cnwd tan fis Awst - ar ôl hynny, gall fod yn ddefnyddiol gwaredu dail y cnwd a helpu golau i gyrraedd y ffrwythau sy'n datblygu. Mae potasiwm bicarb, er ei fod yn organig, yn effeithiol fel difodwr yn unig yn hytrach nag amddifynnwr, felly efallai y byddech yn dymuno ystyried triniaethau confensiynol yn y lle cyntaf. Yn gyffredinol, mae'r bwlch cynaeafu ar gyfer triniaethau addas oddeutu 3 diwrnod neu lai, felly gallwch eu defnyddio'n ddiogel ar eich cnwd ar y cam hwn. Gall Signum fod yn ddrud, ond mae Amistar, Takumi a Tallius yn ddewisiadau da i'w hystyried. Dylech hefyd sicrhau eich bod yn defnyddio amrywiaeth o godau FRAC i osgoi datblygu unrhyw ymwrthedd. Byddwch yn ofalus gyda ffwngladdwyr cyffredinol – mae mwy o opsiynau ar gael ar gyfer



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



corbwmpenni, ond nid ydynt wedi'u cofrestru i'w defnyddio ar bwmpenni.

Rheoli Chwyn

Wrth i'r cnwd pwmpenni ymsefydlu, bydd y risg o chwyn yn parhau nes i'r canopi gau. Bydd troed-yr-wydd gwyn yn ffynnu'n dda yn y sychder ac mae'n broblem gyffredin iawn yn Lloegr, gan ei fod yn gallu tagu'r cnwd yn gyflym. Bydd y ganwraidd goesgoch a chwyn hwyr eraill sy'n dod i'r amlwg yn fwy o broblem wrth i'r cnwd dyfu. Bydd hen wely hadau'n ddechrau cynnar da iawn (dylech anelu at balu ddwywaith cyn plannu, i dynnu unrhyw chwyn sy'n egino, fel arfer dair wythnos cyn plannu), a gall hofio â llaw fod yn ffordd ddefnyddiol o reoli chwyn cyn iddynt ymsefydlu'n llawn, er y gall hyn fod yn ddrud ar raddfa fawr. Ar gyfer planhigion wedi'u strwythuro'n dda, gall hof fecanyddol wedi'i lywio â llaw fod yn effeithiol ar osodiad o 15cm.



Mae amrywiaeth o opsiynau cemegol hefyd ar gael. Mae angen lleithder yn y pridd er mwyn i gynnyrch Flexidor weithio'n effeithiol - gellir ei ddefnyddio ar gyfradd o 0.5L/Ha. Gall Gamit hefyd fod yn effeithiol, ond gall arafu twf y cnwd, yn enwedig mewn tywydd oer, felly peidiwch â'i ddefnyddio os oes unrhyw risg o rew. Gellir ei ddefnyddio ar gyfradd hyd at 0.25 L/ha, ond efallai yr hoffech ostwng y gyfradd i 0.1 - 0.15 L/ha ar dywod, lle mae'n dal i gael rhywfaint o effaith ond mae'n hawdd iddo gael ei olchi allan. Gall hyn hefyd arwain at ymylon o amgylch ardaloedd dyrhau os yw'r pridd yn sych. Mae Kerb Flo hefyd ar gael, gyda chyfraddau gwasgaru oddeutu 1.6 L/ha, ond at ddefnydd cyffredinol, mae'r gyfradd yn gostwng i 1.1 L/ha a dim ond glaswelltau mae'n gallu eu trechu mewn

gwirionedd. Os ydych chi'n hwyr yn drilio, gellid rhoi glyffosad yn hwyr cyn i'r cnwd ymddangos.

Cynnyrch	Cynhwysyn Gweithredol	Uchafswm Dos Unigol	Cyfanswm Dos ar ei uchaf	Amser Hwyraf ar gyfer Gwasgaru
Gamit 36 CS EAMU 2831/15	Clomazone	0.25 L/Ha	0.25 L/Ha/Blwyddyn	Cyn 2 ddeilen gyflawn.
Flexidor EAMU 0883/20	Isoxaben	0.5 L/Ha		Cyn 3 deilen gyflawn Gwasgaru uchafswm o unwaith y flwyddyn
Kerb Flo EAMU 2416/08	Propyzamide		1.875 L/Ha/Blwyddyn	Cyn 3 deilen gyflawn

Gall rheoli ffermwrol hefyd fod yn bwysig ar gyfer twf chwyn cyfyngedig. Gall gorchuddion plastig du fod yn ddefnyddiol os yw'n fforddiadwy o fewn yr elw gros, er y gallai hyn fod wedi'i gyfyngu i'r raddfa fach. Gall plannu trwy mypex hefyd fod yn effeithiol, ond mae hyn yn debygol o fod yn



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



ymarferol ar raddfa fach. Gall tomwellt a chnydau gorchudd fod o fudd – er enghraifft gall meillion gyfoethogi'r nitrogen yn y pridd, ond efallai y bydd angen dod o hyd i amrywiaeth sy'n tyfu'n araf i atal y cnwd rhag gordyfu.

GORFFENAF

Roedd pwmpenni Cymreig yn amrywiol ym mis Gorffennaf 2020, roedd llawer o ffrwythau yn dal heb ffurfio, tra bod ffrwythau ar rai safleoedd yn cyrraedd maint pêl-droed. Gwelwyd amrywiaeth sylweddol o ran ymsefydliad a thwf cynnar, hyd yn oed o fewn rhesi o'r un cyltifar. Y cyfnod targed ar gyfer drilio a phlannu oedd rhwng 14 a 20 Mai, er bod llawer o dyfwyr wedi methu'r dyddiad hwn oherwydd bod y tir yn sych. Mae pwmpenni yn dueddol o ffurfio ger y planhigyn gwreiddiol, ond mae tyfwyr wedi rhoi cynnig ar wahanol ddulliau o hyfforddi stolonau pwmpenni i'w cadw i ffwrdd o lwybrau olwynion gymaint â phosibl, er mwyn lleihau difrod. Gall annog pwmpenni i orwedd yng nghanol y rhes helpu, yn ogystal â phlannu rhesi'n gyfochrog â'r prifwynt. Mae'r ail opsiwn yn gallu eu hannog yn eithaf effeithiol, ac nid oes angen llawer o ymyrraeth arnynt i'w cadw yn y rhesi.

Blodeuo

Mae blodau yn debygol o ddechrau datblygu o ddechrau mis Gorffennaf. Byddwch yn gweld blaguriad cychwynnol o flodau gwrywaidd, gyda'r blodau benywaidd yn dilyn 1-2 wythnos yn ddiweddarach.

Peillio

Mae gan bwmpenni flodau gwrywaidd a benywaidd (dde a chwith yn y drefn honno), ac mae angen y ddau er mwyn i ffrwythau ffurfio. Mae cacwn a phryfed yn gweithredu fel peillwyr ac, mewn tywydd da, bydd un diwrnod o weithgarwch gan y pryfed hyn yn gweld y cnwd yn ffurfio. Er bod angen cychod ychwanegol ar gnydau eraill, mae pwmpenni fel arfer yn ffurfio'n dda gyda gwenyn gwyllt a pheillwyr eraill. Gall tywydd gwael, neu dywydd sych poeth iawn, leihau gweithgarwch gwenyn a gall hyn effeithio'n andwyol ar ffurfiant y ffrwythau. Mae rhai astudiaethau wedi dangos bod darparu mwy o gychod gwenyn yn gallu sicrhau lefelau uchel o beillio, ac yn gallu cynyddu pwysau ffrwythau cyfartalog drwy gynyddu nifer yr hadau. Gall cychod gwenyn hefyd ddarparu mêl lleol i'w werthu i gwsmeriaid.



Rheoli Clefydau

Roedd llwydni powdrog yn dechrau ymddangos ar gnydau pwmpenni ym mis Gorffennaf. Gall hyn fod yn broblem pan fo'r ffrwythau'n dal i fod yn fach, ac mae'n dod yn rhywbeth y bydd angen i dyfwyr ei reoli. Pan fydd ffrwythau wedi cyrraedd eu maint llawn, gellir gadael i ddail sydd wedi'u heintio â llwydni powdrog i farw, gan ddatgelu'r pwmpenni yn y fan a'r lle yn barod i'w cynaeafu. Bydd y canopi dail ysgafnach yn caniatáu i'r pwmpenni gael rhywfaint o haul a datblygu lliw da. Mae Perseus (EAMU 4197/19) neu Signum (EAMU 2651/15) yn cynnig siawns dda o reoli'r clefyd hwn, a bydd yn parhau am tua 2-3 wythnos. Gall y ffwngladdwyr sbectrwm eang hyn hefyd drin pydredd arall sy'n dod i mewn trwy'r blodau, e.e. botrytis, gweler ein taflen ffeithiau ar bydredd ar waelod y ffrwyth yn benodol. Dylai planhigion sydd wedi derbyn triniaeth adfer yn iawn a pharhau i dyfu. Fel arall, gall potasiwm bicarbonad fod yn ddull defnyddiol a chyflym o rwystro heintiau difrifol yr ydych yn dymuno eu hatal rhag lledaenu - gellir defnyddio Karma o dan EAMU 2503/19. Pan fo'r tywydd yn gynnes, argymhellir gwasgaru gyda'r nos, a bydd angen gwlychwr.




Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO





Rheoli Chwyn

Roedd cadw chwyn dan reolaeth yn her sylweddol, gydag throed-yr-wydd gwyn yn ymsefydlu'n gyflym. Roedd planhigion yn cyrraedd taldra o 2m, gan ei gwneud yn anymarferol i'w tynnu ar yr uchder hwn, gan y byddai costau llafur yn agos at £3,000 fesul erw, a byddai'n tarfu'n sylweddol ar y pridd. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn bosibl tyfu pwmpenni da o dan ganopi o droed-yr-wydd gwyn, a dylai'r chwynnyn hwn faru'n ôl erbyn mis Hydref, felly ni ddylai fod yn rhwystr ar ffermydd casglu eich pwmpenni eich hun. Os yw tyfwyr yn awyddus i weithredu i reoli troed-yr-wydd gwyn, gellir mynd i'r afael â phlanhigion tal gyda siswrn torri gwair addas (efallai wrth dorri'r pwmpenni). Mae asid pelargonig (e.e. Finalsán, EAMU 1609/20) ac Wing-P (EAMU 0619/18) wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio rhwng rhesi ar ôl ymddangosiad. Mae

Wing-P wedi bod yn effeithiol mewn treialon, ond mae'r cynnyrch hwn wedi cael ei weld yn lledaenu i'r cnwd ar ôl glaw, gan achosi difrod sylweddol. Mae asid pelargonig yn ymddangos yn fwy diogel, er y gall fod yn gostus gan fod ganddo gyfradd wasgaru o 17 L/ha ac mae angen gwlychwr. Unwaith y bydd pwmpenni'n barod, gall rheoli chwyn fod yn arbennig o heriol gan fod angen osgoi difrod i'r ffrwythau gan chwynladdwyr. Gallai defnyddio peiriant *weed wiper* gyda glyffosad fod yn opsiwn, cyn belled â bod yr offer hwn wedi'i osod yn iawn ac mewn cyflwr da, fel nad oes perygl i'r cemegyn ddiferu ar y pwmpenni. Mae'r defnydd o beiriannau palu yn y rhesi ar gynnydd, ond gall y dechnoleg hon fod yn gostus. Mae hofio wedi bod yn ddull llwyddiannus o reoli chwyn ar gyfer tyfwyr yng Nghymru, ond maent yn cymryd tipyn o amser.

Storio

Os yw'r rhagolygon yn edrych yn braf, gall ychydig o wythnosau o dywydd da roi hwb gwirioneddol i'r cnwd pwmpenni. Fodd bynnag, hyd yn oed os bydd pwmpenni'n edrych yn dda ym mis Awst, gall tywydd gwlyb ar ddiwedd yr haf arwain at gnwd wedi'i ddinistrio erbyn mis Hydref. Cadwch lygad ar y rhagolygon ar gyfer mis Medi, a symudwch y pwmpenni dan do os disgwylir tywydd gwael.

- Mae ardal storio addas yn golygu rhywle cynnes a sych - byddai tŷ gwydr gwag yn ddelfrydol.
- Peidiwch â chadw pwmpenni mewn storfa oer.

Os nad oes yr opsiwn i gysgodi pwmpenni, gallai tyfwyr osod haen o gnu mewn ardal sych o'r cae a gosod y pwmpenni yno ar ôl eu cynaeafu i'w cadw rhag sefyll ar dir gwlyb. Os mai'r bwriad yw gwerthu'r pwmpenni ar sail menter casglu eich hunain, gellir eu symud yn ôl allan i'r cae ar ôl y cyfnod storio. Os yw'r cynnyrch wedi bod yn isel, gallai tyfwyr ddewis prynu pwmpenni ychwanegol i lenwi'r cae.

Trosolwg o flwyddyn 2020

Clefydau

Roedd llwydni powdrog dan reolaeth i raddau helaeth eleni, gyda'r unig symptomau'n ymddangos tua diwedd y tymor lle gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer aeddfedu'r ffrwythau. Roedd y tywydd wrth agosáu at y cynhaeaf yn llawer gwell na 2019, gyda'r ddaear yn parhau i fod yn sych, gan helpu i



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



leihau pydredd yn y cae. Fodd bynnag, roedd y ffrwythau a oedd yn aeddfedu'n hwyrach gyda chroen teneuach yn cynyddu'r risg o bydredd a difrod. Mae canlyniadau treialon wedi dangos bod chwistrell dail calsiwm yn gallu helpu i leihau mynychder a difrifoldeb pydredd.

Y prif glefyd sy'n peri pryder mewn pwmpenni ar ddechrau'r tymor yw llwydni powdrog, a gall hwn ddechrau achosi problemau o fis Mehefin ymlaen, gan ddechrau gyda'r blodeuo. Gall haint ffwngaid gwyn ar y dail ledaenu ar draws wyneb y dail gan arwain at ollwng dail. Mae hyn yn lleihau faint o siwgr sydd ar gael ar gyfer y ffrwyth sy'n tyfu, gan arwain at gynhyrchu ffrwythau llai o faint. Pan fyddwch yn cerdded trwy'r cnwd, chwiliwch am arwyddion o lwydni powdrog drwy gydol y canopi – mae amodau cysgodol a chynnes, fel arfer o amgylch y dail hŷn yn rhan isaf y canopi, yn fwy tueddol o ddatblygu'r clefyd hwn. Mae amrywiaeth o gynhyrchion ar gael ar gyfer rheoli llwydni powdrog (gweler isod), ac mae triniaeth bicarbonad sy'n addas ar gyfer bwyd ar gael i dyfwyr organig. Bydd bicarbonad yn trin y clefyd sy'n bresennol pan gaiff ei wasgaru'n unig gan nad yw'n gallu gweithredu'n amddiffynnol am gyfnod hir. Mae llwydni powdrog yn llai o bryder ar ddiwedd y tymor unwaith y bydd y ffrwythau'n dechrau aeddfedu, gan fod colli dail yn caniatáu i oleuni gyrraedd y ffrwythau sy'n aeddfedu.



Pydredd eilaidd



Yn ogystal â llwydni powdrog, gall pydredd eilaidd fod yn bryder. Gall difrod i'r dail arwain at risg o ddatblygu *Botrytis* (Pydredd Llwyd) ar y dail, ond gellir chwistrellu ffwngladdwr addas (e.e. Signum) i reoli datblygiad os bydd risg sylweddol i'r cnwd. Gall pydredd ffrwythau, naill ai o glwyfau neu o waelod y ffrwyth, fod yn broblem yn ddiweddarach yn y tymor. Gall rheoli maeth calsiwm yn ofalus fod yn ddefnyddiol er mwyn cryfhau'r ffrwythau i allu gwrthsefyll datblygiad pydredd. Os bydd ffrwythau'n cael eu codi, ni ddylid eu golchi. Yn hytrach, dylid eu storio mewn storfa gynnes (neu ar dymheredd amgylchynnol) heb oeri. Gellir storio ffrwythau fel hyn am fisoedd lawer heb ddifetha gan ganiatáu gwerthiant yn y gwanwyn.

Chwyn

Roedd rheoli chwyn yn arbennig o anodd o ganlyniad i'r amodau yn ystod y cyfnod ymsefydlu, gyda throed-yr-wydd gwyn yn arbennig o drwchus. Llwyddodd llawer o dyfwyr i sicrhau hen wely hadau



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswilt
FFERMIO



cyn plannu, ynghyd â chwistrellu, wythnos cyn plannu – llwyddodd rhai tyfwyr i barhau i chwistrellu tan drydedd wythnos mis Mai. Mae treialon wedi awgrymu y gallai mwy o orchudd chwyn effeithio ychydig ar nifer y ffrwythau sy'n ffurfio fesul ardal wedi'i phillannu, ond nid yw o reidrwydd yn effeithio ar faint y ffrwyth wrth gynaeafu wedi iddo ffurfio. Gall chwyn trwm hefyd atal aeddfedu. Roedd chwynladdwyr ar gyfer tymor 2021 i gynnwys Roundup ar gyfer hen wely hadau ac yna Gamit, Kerb a/neu Flexidor ar gyfer defnydd gweddilliol, hyd at 24 awr cyn ymddangosiad. Mae Kerb, Flexidor a Gamit hefyd yn ddiogel i'w defnyddio dros y cnwd neu'r trawsblaniadau sydd wedi ymddangos o'r pridd, ond nid ydynt yn effeithiol wrth reoli chwyn sydd wedi dod i'r amlwg. Gellir defnyddio Wing-P fel chwynladdwr gweddilliol wedi'i gyfeirio'n benodol, ond cafwyd rhywfaint o adroddiadau o ddfrod i gnydau eleni. Gellir defnyddio Finalsan a Shark fel chwynladdwyr cyswllt wedi'i cyfeirio'n ofalus. Gellir addasu cyfraddau gwasgaru i weddu i amodau cynydau a phridd.

Marchnata

Er gwaethaf heriau COVID, roedd diddordeb cryf gan gwsmeriaid eleni wrth i bwmpenni Calan Gaeaf barhau i gynyddu. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn adnodd hanfodol wrth gyfathrebu â chwsmeriaid. Roedd yn rhaid i nifer o dyfwyr gyflwyno system archebu ymlaen llaw i reoli llif cwsmeriaid ar eu safle. Gallai hyn fod yn seiliedig ar amser penodol neu ar amser cyrraedd, heb gyfyngu ar yr amser ar y safle. Roed codi tâl ymlaen llaw yn helpu i sicrhau nad oedd slotiau a oedd wedi'u cadw'n cael eu gwastraffu, ond byddai modd cysylltu'r ffi gyda swm y gellid ei adhawlio yn erbyn cost prynu pwmpen. O ystyried bod grwpiau'n debygol o fod yn seiliedig ar deuluoedd, mae'n bosibl y byddai'n haws caniatáu archebu a chodi ffi fesul cerbyd yn hytrach na fesul person. Gan ddibynnu ar y gwasanaeth a ddefnyddir, efallai y bydd angen i chi godi ffi archebu, ond gallwch addasu eich prisiau i gynnwys hyn. Er bod Covid wedi creu'r angen ar gyfer y mathau hyn o farchnata, mae nifer o dyfwyr yn gweld eu bod wedi hwyluso'r broses o reoli cwsmeriaid, a gallai'r strategaeth hon fod o fudd yn y blynyddoedd sydd i ddod. Wrth brisio ffrwythau, mae angen i chi feddwl am ffyrdd o sicrhau cysondeb o ran prisiau – gall rhai tyfwyr godi tâl yn ôl pwysau neu yn ôl maint, a gall arddangosfeydd o bwmpenni wedi'u casglu ymlaen llaw roi syniad o bris i gwsmeriaid cyn casglu ffrwythau. Mae pwmpenni llai wedi bod yn arbennig o boblogaidd eleni yn gwerthu am £1 - £1.50 y ffrwyth o'i gymharu â £2-4 ar gyfer pwmpenni canolig (3-5kg), £5-8 ar gyfer pwmpenni mawr (5-8kg) a £10 ar gyfer pwmpenni anferth dros 10kg.



Cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau cynllunio ar gyfer y tymor nesaf, yn enwedig ar gyfer archebu hadau. Mae ystod eang o gyltifarau ar gael, a rhoddir crynodeb isod. Wrth gynllunio cyltifarau, cynlluniwch yr hyn sydd ei angen arnoch i gyd-fynd â gofynion cwsmeriaid, ond ystyriwch eich tir, hefyd: er enghraifft, gall Racer berfformio'n well ar safleoedd arfordirol agored o'i gymharu â Harvest Moon. Ar gyfer niferoedd hadau, ystyriwch 10,000 i 12,500 o blanhigion fesul ha, er y gall ochr isaf y raddfa fod yn rhy isel ar gyfer safleoedd drilio uniongyrchol. Bydd modiwlau yn cymryd tua 3-4 wythnos o dan warchodaeth i gyrraedd aeddfedrwydd, ond bydd angen plannu planhigion wedi'u drilio yn uniongyrchol a phlanhigion modiwl tua 20 Mai os yw'r tywydd yn ddigon cynnes.

Gallwch hefyd ystyried cynydau amgen i ategu'r cnwd pwmpenni naill ai i ymestyn y tymor neu ehangu eich cynnig i'ch cwsmeriaid. Gall blodau haul, drysfa indrawn neu fenter casglu yd eich hun fod yn ddeniadol iawn, er y byddai angen i chi ystyried yr amserlen a'r dewis o rywogaethau i sicrhau bod yr india-corn yn cyd-daro â chyfnodau marchnata tebygol y pwmpenni. Mae'n bosibl na fyddai gweithgareddau eraill megis cloddio am datws yn cynnig elw sylweddol, ond gallai wella'r profiad i



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



gwsmeriaid a chynyddu'r amser a dreulir ar y safle, gan gynyddu gwerthiant mewn meysydd eraill megis caffi ar y fferm.

Canllaw Maint	Amrywiaeth	Math	Cyflenwr	Amcangyfrif o'r Pwysau
Anferth	Kratos	Halloween (H)	Clause UK	>10kg
	Captain Jack	H	Sakata	>10 kg
	Gold Medal	H	Tozer	>8 kg
	Champion	H	Tozer	>8 kg
	Large Marge	H	Sakata	12kg
	Mr Wrinkles	H	Sakata	12 kg
	Early King	H	Moles	12kg
	Polar Bear	Gwyn	Tozer	>8kg
	Diablo	H	Sakata	8kg
	Earlipack	H	Sakata	8kg
	Wicked	H	Tozer	8kg
Mawr	Magic Lantern	H	Clause	7kg
	Racer	H	Tozer	5-7kg
	Gladiator	H	Clause	5-6 kg
	Mrs Wrinkles	H	Sakata	7kg
	Harvest Moon	H	CN	4-5kg
Canolig	Magician	H	Clause	3-4kg
	Gomez	H	Clause	3-4 kg
	Cargo	H	Tozer	3-4kg
	White Flat Boer	Gwyn	Sakata	4kg
	Bellatrix	H	Enza	4kg
	Mars	H	Tozer	2-4 kg
Bach a Bach lawn	Spitfire	Mini (M)	Clause	1kg
	Full Splendour	M	Sakata	2kg
	Jack Sprat	M	Sakata	1-2kg
Dafadennog	Toad	Warty (W)	Sakata	1kg
	Goosebumps	W	Tozer	2kg
	Warty Gnome	W	Clause	2kg
	Warty Goblin	W	Clause	2 kg
	Knuckle head	W	Moles	5-7kg



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Opsiybau Rheoli Llwydni Powdrog ar gyfer Pwmpenni						
Cynnyrch	Cynhwysyn Gweithredol	Uchafswm nifer y gwasgariadau	Uchafswm Dos Unigol (L/ha neu kg/ha)	Cyfanswm Dos ar ei uchaf (L/ha neu kg/ha)	Bwlch cynaeafu (diwrnodau)	Rhif FRAC
Amistar EAMU - 0893/2017	azoxystrobin	2	1.0	-	3	11
Serenade ASO EAMU - 0706/2013	<i>Bacillus subtilis</i> straen QST 713	20	10.00	-	0	44
Signum EAMU - 2651/15	Boscalid + Pyraclostrobin	-	1.5	3.0	1	7 + 11
Takumi SC EAMU - 2915/16	cyflufenamid	2	0.15	-	1	U06
Prestop EAMU - 2843/18	Straen <i>Gliocladium catenulatum</i> J1446	3	6.00	-	Gwasgarwch cyn i ffrwythau gyrraedd eu maint llawn ar y prif goesyn	BM02
Karma EAMU - 2503/19	potasiwm hydrogen carbonad	8	3.0	-	1	Amherthnasol
Talius EAMU - 2627/2015	proquinazid	1	0.25	-	3	13

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir. Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau pwmpenni, ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'The Revised Long Term Arrangements For Extension Of Use (2002)'. Yn yr achosion hyn, ar gyfrifoldeb y defnyddiwr ei hun y mae defnyddio'r plaladdwr. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar gnydau pwmpenni wedi'u nodi ac yn gywir adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd sydd â chymhwyster gan BASIS.

Darparwyd cynnwys gan ADAS



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

